

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS
# AM
# SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo ‘I ddarparu’r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.’ Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw’n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy’n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i’r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi’u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu’r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai’r Gwasanaeth yn gallu darparu’r gwasanaeth gorau posibl i’n cymunedau.

Os ydych chi’n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â’r holl fanteision y byddech chi’n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o’n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,





Roger Thomas
Prif Swyddog Tân, *Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig*

## EIN GWELEDIGAETH

I ddarparu'r Gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

## OUR VISION

To deliver the best possible service for the communities of mid and west Wales.



#eichgtacgc #yourmawwfrs

# YMDDYGIADAU

- Bod yn Atebol
- Dangos Uniondeb
- Bod yn Foesegol
- Bod yn Barchus
- Bod yn Ddiduedd

# GALLUOGI

- Ein pobl
- Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.
- Cadernid Ariannol
- Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
- Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Partneriaethau a Chydweithio

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km$^2$)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km$^2$ (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**
yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân
gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

**Cyfraddau cyflog cystadleuol -**
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -**
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

**Gwyliau Blynyddol hael –**
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

**Cynllun Hyblyg –**
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Amgylchedd Gwaith wedi'i Ffurfio gan ein Gwerthoedd

### Wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth -

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn a wnawn fel Gwasanaeth ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd prosesau, arferion a diwylliant ein sefydliad.

Fel gwasanaeth, rydym wedi ymrwymo i ganfod, deall a dileu'r holl rwystrau sy'n atal mynediad at wasanaethau, gwybodaeth a chyflogaeth.

Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth nifer fach o rwydweithiau / fforymau gweithwyr mewnol ar waith, sy'n chwarae rhan weithredol yn y dasg o:

- Hyrwyddo materion ar gyfer gweithwyr;
- Cyfrannu at agenda amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad;
- Cynghori ar ddatblygu polisi;
- Gwella'r amgylchedd gwaith i'r gweithwyr

### Wedi ymrwymo i leihau ein Heffaith Amgylcheddol -

Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau effeithiau amgylcheddol andwyol oddi mewn i gyfyngiadau ariannol, gweithredol ac adnoddau.

Yn ein ras i Statws Carbon Sero Net erbyn 2030, mae'r Gwasanaeth wedi pennu targedau iddo'i hun sy'n cyd-fynd â map llwybr Llywodraeth Cymru ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5, a hynny am yr 8fed flwyddyn yn olynol.

#SERO30

# Proffil Swydd

Cyflog: Gradd 10 - £42,839 -£45,091

**MANYLION AM Y SWYDD HON**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn chwilio am geisiadau gan unigolion ar gyfer rôl Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Llesiant o fewn yr Adran Adnoddau Dynol wedi'i lleoli ym Mhencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin. Mae hon yn rôl barhaol amser llawn.

**Y Rôl**

Rydym yn chwilio am Arbenigwr Iechyd Meddwl a Llesiant ymroddedig i helpu i gyflawni strategaeth llesiant ein Hawdurdod, darparu ymyriadau seicolegol, asesiadau iechyd meddwl, a chefnogaeth gyfrinachol i staff. Byddwch yn dylunio cynlluniau gwydnwch wedi'u teilwra, yn cefnogi prosesau ymateb i drawma, ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o iechyd meddwl trwy ymgyrchoedd a hyfforddiant effeithiol. Gan weithio'n agos gydag AD, Iechyd a Diogelwch, a thimau arbenigol, byddwch yn sicrhau gofal cydlynol, yn gyrru newid diwylliannol, ac yn cynrychioli'r Awdurdod ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Os ydych chi'n angerddol am greu gweithleoedd iachach a grymuso eraill, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Mae'r swydd hon yn gofyn am deithio'n rheolaidd ledled ardal y Gwasanaeth.

Swydd lawn-amser, 37 awr yr wythnos yw hon, gyda’r gallu i weithio oriau hyblyg yn unol â chynllun oriau hyblyg y Gwasanaeth.

**Ymholiadau**

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r swydd hon, cysylltwch â'r Rheolwr AD, Lizzie Jones ar lizzie.jones@mawwfire.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Cynghorydd Iechyd a Llesiant Meddyliol |
| **SAFLE/RÔL:** | Graddfa 10 |
| **LLEOLIAD:** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin*<br><br>*Mae angen teithio'n rheolaidd ar hyd a lled ardal y Gwasanaeth. |
| **YN ATEBOL I:** | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Gweithredu fel y swyddog arweiniol ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant meddyliol gweithwyr y Gwasanaeth, datblygu, gweithredu a gwerthuso rhaglenni a mentrau iechyd meddwl, rhoi cefnogaeth uniongyrchol i unigolion, a meithrin diwylliant o les meddyliol o fewn y sefydliad.<br><br>Mae hyn yn cynnwys dod o hyd i, a darparu therapïau seicolegol i aelodau'r Gwasanaeth, gan ddarparu cymorth iechyd a llesiant meddyliol yn glinigol fel y Seicotherapydd i'r Awdurdod.<br><br>Asesu a chefnogi gweithwyr gyda'u hiechyd meddwl trwy ddarparu Gwasanaeth Seicotherapi a Chwnsela cychwynnol tra'n cynorthwyo i nodi atebion hirdymor. |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| Cyflawni strategaeth, polisïau a gweithdrefnau Llesiant yr Awdurdod gan ddatblygu a gweithredu ymyriadau seicolegol priodol gan gynnwys asesiadau iechyd meddwl ac ymyriadau cwnsela. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Cynnal asesiadau a datblygu cynlluniau ymyrraeth wedi'u teilwra er mwyn mynd i'r afael ag anghenion unigolion a hyrwyddo gwydnwch | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Rhoi cefnogaeth cychwynnol gyfrinachol i weithwyr sy'n wynebu heriau personol neu gysylltiedig â'r gwaith, gan ddefnyddio technegau therapiwtig seiliedig ar dystiolaeth | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Sicrhau darpariaeth a goruchwylio'r broses o gyflwyno asesiadau seicolegol a goruchwyliaeth i'r gweithwyr hynny sydd mewn rolau arbenigol e.e. y Tîm Chwilio ac Achub Trefol. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Cynnal datblygiad personol a phroffesiynol parhaus er mwyn cadw eich gwybodaeth a'ch sgiliau'n gyfredol. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Arwain a chyfrannu at gynllunio a gweithredu ymgyrchoedd llesiant mewn gweithleoedd, cynyddu ymwybyddiaeth iechyd meddwl a rhoi cefnogaeth werthfawr i weithwyr. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Cefnogi a hwyluso cyflwyno prosesau cymorth trawma'r Gwasanaeth a chefnogi'r broses o ddefnyddio, hyfforddiant a DPP Rheolwyr ac Ymarferwyr TRiM. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Sicrhau darpariaeth a chyflenwi hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (MHFA) neu hyfforddiant cyfatebol i weithwyr ac arwain a chyfarwyddo'r tîm. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Cysylltu â'r tîm Iechyd a Diogelwch i sicrhau bod Asesiadau Risg Straen yn cael eu cyflwyno mewn modd briodol a chydlynol. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Cefnogi'r Rheolwr AD – Iechyd Galwedigaethol i ddarparu, cyflwyno a rheoli perfformiad y Rhaglen Cymorth i Weithwyr. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |

| | |
|---|---|
| Cynrychioli'r Awdurdod ar lefel Leol, Rhanbarthol a Chenedlaethol gan rannu dysgu o brofiad sefydliadol er budd y sector a'n cymunedau. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Mynychu'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant er mwyn galluogi rheoli perfformiad ar draws ystod o systemau. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Cynorthwyo rheolwyr llinell i gyflawni eu cyfrifoldebau llesiant trwy roi cyngor fel y bo'n briodol. Gan gynnwys cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth llesiant ar draws y Gwasanaeth | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Cymryd rhan mewn gweithgorau sy'n ymwneud â llesiant meddyliol a newid diwylliannol gan gynrychioli anghenion iechyd a llesiant meddyliol Staff. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Datblygu a chyflwyno hyfforddiant i reolwyr a staff i godi ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl a'r cymorth sydd ar gael. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Dadansoddi ystadegau a thueddiadau mewn perthynas ag absenoldeb oherwydd salwch a llesiant er mwyn sicrhau mentrau llesiant priodol ac wedi'u teilwra. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Gweithio ochr yn ochr â'r Adran AD i roi cyngor a chefnogaeth ynghylch anghenion llesiant staff, gan sicrhau bod staff sy'n absennol o'r gwaith oherwydd pryderon sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn cael cymorth priodol ac wedi'i deilwra. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Cynorthwyo'r Ymgynghorwyr AD drwy gyfrannu at ddarparu ffurflenni atgyfeirio i Baneli Ymgynghorol Iechyd a Ffitrwydd Galwedigaethol er mwyn sicrhau bod y gweithwyr yn derbyn cefnogaeth gydlynol. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Cynorthwyo rheolwyr sy'n cefnogi gweithwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl salwch oherwydd iechyd meddwl. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |
| Os yw materion llesiant yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith, cefnogi'r gweithiwr a'r tîm rheoli llinell yn ôl yr angen i fynd i'r afael â'r materion sy'n peri pryder. | Rheolwr AD – Iechyd a Llesiant Galwedigaethol |

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Fire and Rescue Service

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

**MANYLEB Y PERSON**

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD** | Cynghorydd Iechyd a Llesiant Meddyliol |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin*<br>*Mae angen teithio'n rheolaidd ar hyd a lled ardal y Gwasanaeth. |
| **RHIF Y SWYDD** | |
| **GRADDFA** | 10 |
| **ADRAN** | Adnoddau Dynol |
| **GWIRIAD GDG** | Gwiriad DBS Manwl gyda gwiriad yn erbyn y rhestr Oedolion sydd wedi'u Gwahardd. |

Sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â phob un o'r gofynion canlynol yn eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio at ddibenion llunio rhestr fer. Dylech ddarparu tystiolaeth glir sy'n dangos eich bod yn cwrdd â phob maes yn seiliedig ar eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Meddu ar gymhwyster lefel proffesiynol mewn cwnsela, seicotherapi neu debyg<br><br>Trwydded yrru lawn gyfredol a / neu'n gallu teithio i wahanol leoliadau gwaith | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| **Gwybodaeth** | Dealltwriaeth o faterion adnoddau dynol, yn ddelfrydol profiad o helpu rheolwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau iechyd, diogelwch a llesiant<br><br>Dealltwriaeth o waith Gwasanaeth Tân ac Achub, neu wasanaeth brys tebyg | Dymunol<br><br>Dymunol | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o weithio o fewn rôl iechyd meddwl neu lesiant.<br><br>Dealltwriaeth gynhwysfawr o faterion iechyd meddwl a'u heffaith<br><br>Profiad o reoli argyfwng a gweithio mewn trawma<br><br>Profiad o ddarparu gwasanaeth cefnogol a gofalgar i bobl sydd angen cymorth iechyd meddwl<br><br>Profiad o ddatblygu a/neu adolygu polisïau, yn ddelfrydol ym maes gwasanaethau llesiant/iechyd meddwl | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| **Sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Swydd/Personol** | Sgiliau rhyngbersonol datblygedig iawn gyda'r gallu i adnabod a dehongli anghenion cleientiaid a'r sefydliad ehangach<br><br>Gallu cyfathrebu'n effeithiol, gyda hyder er mwyn sefydlu ymddiriedaeth a chadw cyfrinachedd<br><br>Teimlo'n hyderus i godi pryderon a herio ymddygiadau negyddol neu stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl<br><br>Gallu blaenoriaethu terfynau amser<br><br>Gallu gweithio ar eich menter eich hun<br><br>Brwdfrydedd ac ymroddiad i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| **Cyfathrebu** | Sgiliau llafar Saesneg<br><br>Sgiliau ysgrifenedig Saesneg<br><br>Sgiliau llafar Cymraeg<br><br>Sgiliau ysgrifenedig Cymraeg<br><br>Y gallu i gyfathrebu â chydweithwyr ar bob lefel | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** Gwiriad DBS Manwl gyda gwiriad yn erbyn y rhestr Oedolion sydd wedi'u Gwahardd.

**CYFIAWNHAD:**

**PARATOWYD:** **DYDDIAD ADOLYGU:**

# Sut i wneud cais

Dyddiad Cau: 24 Medi 2025 am 1630yp

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk